

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>16 Mehefin 2021</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Materion yn ymwneud ag Aelodau</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Adrodd ar y cynnydd hyd yma</b>
<b>Awdur:</b>	<b>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</b>

f

## 1.0 Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar amrywiaeth o faterion cysylltiedig ag Aelodau.

## 1.1 Adroddiad Blynyddol Aelodau

Rydw i wedi diweddarau'r Pwyllgor hwn ar Adroddiadau Blynyddol Aelodau yn y gorffennol.

Mae Adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn galluogi Aelodau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu gweithgareddau. Gweler y tabl isod:

Adroddiadau Blynyddol	Adroddiadau a Gwblhawyd
2013/14	21
2014/15	21
2015/16	21
2016/17	20
2017/18	21
2018/2019	27
2019/20	22

Mae adroddiadau blynyddol yn bwysig o ran atebolrwydd lleol ac maent yn darparu trosolwg o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn ogystal â gweithgareddau myngysylltiad cymunedol. Gellir cael mynediad i adroddiadau drwy'r ddolen isod:

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-Aelodau-Seneddol-ac-Aelodau-Senedd/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx>

Mae Arweinyddion Grwpiau wedi eu briffio ar y trefniadau ar gyfer adroddiadau sy'n ymdrin â'r cyfnod 2020/21. Cafodd templed ei gylchredeg i'r holl Aelodau ar 20 Ebrill 2021 a chais i'r Aelodau gwblhau'r adroddiadau erbyn 12 Mai 2021 yn barod i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn diwedd Mehefin 2021. Fe roddir

diweddariad yn y Pwyllgor.

## **1.2 Etholiadau'r Cyngor yn 2022**

Wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r flwyddyn nesaf, mae'r WLGA ar hyn o bryd wrthi'n diweddarau modelau'r disgrifiadau swydd ar gyfer Aelodau. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau'n lleol ac yn cael eu rhoi i Aelodau unwaith y byddant wedi eu hethol. Mae'r disgrifiadau wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio ar y cyd â'r fframwaith (cymhwysedd) datblygu aelodau sydd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar ac sydd ar gael i'w weld ar wefan y WLGA:

<https://www.wlga.cymru/councillor-development-competency-framework>

Bydd yr agweddau hyn ynghyd â'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) ac Etholiadau 2021 yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2021/22.

## **2.0 Argymhelliad:**

Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

**Huw Jones**  
**Pennaeth Gwasanaethau**  
**Democrataidd**  
**2 Mehefin 2021**